




Gweinyddiaeth  
Cyfiawnder

# Galw am Dystiolaeth

**Asesu'r risg o niwed i blant a rhieni mewn  
achosion plant cyfraith breifat**

Mae'r ymarfer galw am dystiolaeth hwn yn dechrau ar ddydd Gwener 19 Gorffennaf 2019

Daw'r ymarfer galw am dystiolaeth hwn i ben ar ddydd Llun 26 Awst 2019





Gweinyddiaeth  
Cyfiawnder

**Pa mor effeithiol yw'r llysoedd teulu o ran ymateb i honiadau o gamdriniaeth ddomestig a throeddau difrifol eraill mewn achosion plant cyfraith breifat, o ystyried y broses a'r canlyniadau i'r partion a'r plant?**

**Galw am dystiolaeth a gynhyrchwyd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Mae hefyd ar gael yn <https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/assessing-harm-private-family-law-proceedings>**

# Ynglŷn â'r ymarfer galw am dystiolaeth hwn

**At:** Mae'r panel yn gwahodd tystiolaeth ynghylch pa mor effeithiol yw'r llysoedd teulu o ran ymateb i honiadau o gamdriniaeth ddomestig a throseddau difrifol eraill mewn achosion plant cyfraith breifat, o ystyried y broses a'r canlyniadau i'r partïon a'r plant.

Mae ar agor i unrhyw unigolyn neu sefydliad a all gynnig gwybodaeth neu dystiolaeth yn seiliedig ar eu profiadau personol neu broffesiynol.

**Hyd:** Rhwng 19/07/19 a 26/08/19

**Ymholiadau (gan gynnwys ceisiadau i gael y papur mewn fformat gwahanol) at:** Lauren Wray  
Ministry of Justice  
5 Wellington Place  
Leeds  
LS1 4AP

Ffôn: 07784 274880

E-bost: Lauren.wray1@justice.gov.uk

**Sut i ymateb:** Mae'r ymarfer galw am dystiolaeth hwn ar gael ar-lein yn <https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/assessing-harm-private-family-law-proceedings>. Fodd bynnag, os byddai'n well gennych ymateb yn ysgrifenedig, dylech ei anfon erbyn 26/08/19 at:

Lauren Wray  
Ministry of Justice  
5 Wellington Place  
Leeds  
LS1 4AP

Ffôn: 07784 274880

E-bost: Lauren.wray1@justice.gov.uk

**Ffyrdd ychwanegol i chi gyflwyno eich barn:**

Cynhelir cyfres o ddigwyddiadau i randdeiliaid hefyd fel rhan o'r ymarfer galw am dystiolaeth hwn. I gael rhagor o wybodaeth, defnyddiwch y manylion cyswllt ar gyfer "Ymholiadau" uchod.

# Cynnwys

<b>Rhagair</b>	<b>3</b>
<b>Rhagarweiniad</b>	<b>4</b>
<b>Holiadur</b>	<b>6</b>
Cyfrinachedd	6
Adran 1 - Eich profiad chi o achosion plant cyfraith breifat	7
Adran 2 - Codi honiadau o gamdriniaeth ddomestig neu droseddau difrifol eraill mewn achosion plant cyfraith breifat	8
Adran 3 - Lleisiau Plant	8
Adran 4 - Y broses pan fydd honiadau o gamdriniaeth ddomestig yn cael eu codi	8
Adran 5 - Diogelwch ac amddiffyniad yn y llys i ddioddefwyr camdriniaeth ddomestig a throseddau difrifol eraill	10
Adran 6 - Ceisiadau ailadroddus i'r llys teulu sy'n ymwneud â chamdriniaeth ddomestig	12
Adran 7 - Canlyniadau i blant	14
Adran 8 - Unrhyw sylwadau eraill	15
<b>Amdanoch chi</b>	<b>16</b>
<b>Manylion cyswllt/Sut i ymateb</b>	<b>17</b>
Cwynion neu sylwadau	17
Copiâu ychwanegol	17
Grwpiau cynrychiadol	17
Cyfrinachedd	18

## **Galw am Dystiolaeth**

Aseu'r risg o niwed i blant a rhieni mewn achosion plant cyfraith breifat

# Rhagair

Ar 21 Mai 2019 cyhoeddodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder (MoJ) alwad cyhoeddus am dystiolaeth dan arweinyddiaeth panel o arbenigwyr o bob rhan o'r maes cyfiawnder teulu, i gasglu tystiolaeth ar sut mae'r llysoedd teulu'n amddiffyn plant a rhieni mewn achosion plant cyfraith breifat sy'n ymwneud â chamdriniaeth ddomestig a throseddau difrifol eraill.

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y panel ddydd Gwener 14 Mehefin 2019, gan ddynodi dechrau'r galwad am dystiolaeth fydd yn para tri mis. Mae aelodau'r panel yn cynrychioli sefydliadau allweddol o bob rhan o'r maes cyfiawnder teulu, gan gynnwys y Farnwriaeth, y byd academiaidd, gofal cymdeithasol, swyddogion polisi a sefydliadau trydydd parti. Cyfrifoldeb sylfaenol y panel hwn yw casglu tystiolaeth gan unigolion a sefydliadau sydd â phrofiad yn y maes cyfiawnder teulu hwn mewn capasiti personol neu broffesiynol. Yr ymarfer galw am dystiolaeth ysgrifenedig hwn yw un o'r ffyrdd y mae'r panel yn gofyn am gyfraniadau.

Bydd yr ymarfer galw am dystiolaeth yn canolbwyntio'n benodol ar gymhwysiad Cyfarwyddyd Ymarfer 12J, Cyfarwyddyd Ymarfer 3AA, Rheolau Trefniadaeth Teulu Rhan 3A, a gorchmynion a.91(14), a bydd yn meithrin dealltwriaeth fanylach o unrhyw niwed a achoswyd i rieni a/neu blant yn ystod neu'n dilyn achos plant cyfraith breifat. Nod cyffredinol yr ymarfer galw am dystiolaeth yw deall yn well pa mor effeithiol yw'r llysoedd teulu o ran ymateb i honiadau o gamdriniaeth ddomestig a throseddau difrifol eraill mewn achosion plant cyfraith breifat, o ystyried y broses a'r canlyniadau i'r partïon a'r plant.

**Melissa Case a Nicola Hower**

Cyd-Gadeiryddion y Panel

# Rhagarweiniad

Mae'r panel yn gwahodd tystiolaeth ynghylch pa mor effeithiol yw'r llysoedd teulu o ran ymateb i honiadau o gamdriniaeth ddomestig a throseddau difrifol eraill mewn achosion sy'n ymwneud ag anghydfodau rhwng rhieni ynghylch trefniadau plant ar ôl iddynt wahanu (a elwir yn 'achosion plant cyfraith breifat').

Hoffai'r panel glywed gan bobl sydd â phrofiad uniongyrchol o fod yn bartion mewn achosion cyfraith breifat, yn ogystal â gan y rhai hynny sy'n darparu gwasanaethau cefnogi i rieni sy'n gysylltiedig ag achosion o'r fath, a gan unigolion proffesiynol sy'n ymarfer mewn achosion o'r fath.

Mae'r panel yn arbennig o awyddus i gael tystiolaeth am unrhyw niwed a achoswyd i blant a/neu rieni yn ystod neu yn dilyn achos plant cyfraith breifat, lle mae honiadau a/neu dystiolaeth o gamdriniaeth ddomestig neu o droseddau eraill a allai beri risg o niwed i blant neu rieni (megis cam-drin plentyn, treisio, ymosodiad rhywiol neu lofruddiaeth).

Er mwyn deall sut mae'r llysoedd yn gweithio'n ymarferol, mae'r panel wedi adnabod meysydd penodol i'w hymchwilio, gan gynnwys:

- Sut mae Cyfarwyddyd Ymarfer 12J yn cael ei gymhwyso'n ymarferol, a'i ganlyniadau a'i effaith ar blant a rhieni, gan gynnwys ei ryngweithiad â'r rhagdybiaeth o gyfranogiad rhieni yn a.1(2A) Deddf Plant 1989;
- Sut mae Rheolau Trefniadaeth Teulu Rhan 3A a Chyfarwyddyd Ymarfer 3AA yn cael eu cymhwyso'n ymarferol, a'u canlyniadau a'u heffaith ar achosion sy'n ymwneud â chamdriniaeth ddomestig neu droseddau difrifol eraill yn erbyn partion a/neu blant;
- Sut mae a.91(14) Deddf Plant 1989 yn cael ei chymhwyso'n ymarferol, a'i chanlyniadau a'i heffaith ar achosion sy'n ymwneud â chamdriniaeth ddomestig;
- Ym mhob achos, heriau gweithredu'r darpariaethau hyn a natur a'r rhesymau dros unrhyw anghysondeb ac annigonolrwydd yn eu gweithrediad;
- Y risg o niwed i blant a rhieni sydd heb gam-drin sy'n parhau i gael perthynas a chyswllt â rhiant sydd wedi cyflawni camdriniaeth ddomestig (gan gynnwys ymddygiad gorfodol a rheolaethol) neu sydd wedi cyflawni troseddau difrifol eraill yn erbyn y rhiant arall neu blentyn, megis cam-drin plentyn, treisio, ymosodiad rhywiol neu lofruddiaeth.

## Galw am Dystiolaeth

Asesu'r risg o niwed i blant a rheni mewn achosion plant cyfraith breifat

*Dyma'r diffiniad o gamdriniaeth ddomestig yng Nghyfarwyddyd Ymarfer 12J:*

*Mae camdriniaeth ddomestig yn cynnwys unrhyw ddigwyddiad neu batrwm o ddigwyddiadau lle ceir ymddygiad rheolaethol, gorfodol neu fygythiol, trais neu gamdriniaeth rhwng y rhai hynny sy'n 16 oed neu drosodd sydd yn, neu sydd wedi bod yn bartneriaid agos neu aelodau o'r teulu ni waeth be fo'u rhywedd neu rywioldeb. Gall hyn gwmpasu, ond nid yw'n gyfyngedig i, gamdriniaeth seicolegol, corfforol, rhywiol, ariannol neu emosiynol. Mae camdriniaeth ddomestig hefyd yn cynnwys mathau o gamdriniaeth sy'n berthnasol i ddiwylliannau penodol gan gynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i, priodi dan orfod, trais ar sail anrhydedd, cam-drin rhoddwyr a gadael priod rhyngwladol.*

*Mae 'gadael priod rhyngwladol' yn cyfeirio ar yr ymarfer lle mae gŵr, yng Nghymru a Lloegr, yn gadael ei wraig sy'n wladolyn tramor, dramor a hynny gan amlaf heb arian, er mwyn ei hatal rhag mynnu hawliau priodasol a/neu hawliau preswyllo yng Nghymru a Lloegr. Gall hefyd gynnwys plant sy'n cael eu gadael gyda'u mam neu sy'n cael eu gwahanu oddi wrth eu mam.*

*Mae 'ymddygiad gorfodol' yn golygu gweithred neu batrwm o weithredoedd o ymosodiadau, bygythiadau, cywilydd ac aflonyddu neu gamdriniaeth o fath arall a ddefnyddir i niweidio, cosbi, neu ddychryn y dioddefwr.*

*Mae 'ymddygiad rheolaethol' yn golygu gweithred neu batrwm o weithredoedd a gynlluniwyd i wneud rhywun yn israddol ac/neu yn ddibynnol trwy eu hynysu o ffynonellau cefnogaeth, ecsbloetio eu hadnoddau a'u cyraeddiadau er budd personol, gan eu hamddifadu o'r dulliau angenrheidiol ar gyfer annibyniaeth, gwrthwynebu a dianc, a rheoleiddio eu hymddygiad dydd i ddydd.*



# Holiadur

**Gallwch ymateb i'r ymarfer galw am dystiolaeth hwn drwy lenwi holiadur sydd ar gael i'w lenwi a'i ddychwelyd ar-lein yn <https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/assessing-harm-private-family-law-proceedings>. Fodd bynnag, os byddai'n well gennych anfon eich ymatebion at y panel drwy e-bost neu'r post, mae'r manylion cyswllt ar y dudalen "ynghlŷn â'r ymarfer galw am dystiolaeth hwn".**

Mae'r holl gwestiynau yn yr holiadur hwn yn ddewisol. Atebwch gynifer neu gyn lleied o gwestiynau ag y dymunwch.

## Cyfrinachedd

Rhaid i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder gydymffurfio â Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Deddf Diogelu Data 1998, y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2018. Golyga hyn y gellir cyhoeddi neu ddadlennu gwybodaeth a ddarperir mewn ymateb i'r ymarfer Galw am Dystiolaeth hwn yn unol â'r cyfreithiau a'r rheoliadau hyn.

Mae'n bosib y bydd y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn cael ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth am y wybodaeth a ddarperir yn yr ymarfer Galw am Dystiolaeth hwn. Dylai ymatebwyr fod yn ymwybodol y gellir rhyddhau'r wybodaeth y maent wedi'i darparu o dan y Ddeddf hon. **Bydd unrhyw ymatebion unigol yn ddiennw. Ni fydd enwau unigolion neu sefydliadau yn cael eu nodi (oni bai bod sefydliadau'n rhoi caniatâd i wneud hynny ar dudalen 16).**

Mae'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn cynnwys Cod Ymarfer statudol y mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio ag ef ac sy'n delio, ymysg pethau eraill, ag ymrwymadau cyfrinachedd. Os ydych eisiau i'ch ymatebion gael eu trin yn gyfrinachol, eglurwch pam eich bod yn ystyried bod y wybodaeth a ddarparwyd gennych yn gyfrinachol. Os byddwn yn cael cais i ddadlennu'r wybodaeth byddwn yn ystyried eich eglurhad yn llawn, ond ni allwn roi sicrwydd y gellir cadw cyfrinachedd o dan bob amgylchiad. Ni ystyrir y bydd ymrthodiad cyfrinachedd awtomatig a gynhrychir gan eich system TG, ynddo'i hun, yn ymrwmo'r Weinyddiaeth.

Peidiwch â chynnwys enwau unigolion. Os byddwch yn gwneud hyn, byddwn yn dileu'r enwau o ymatebion, ond ni fyddwn yn gwneud unrhyw newidiadau eraill. Ni allwn drafod achosion unigol yn yr ymarfer ac ni allwch ei ddefnyddio fel ffordd o apelio yn erbyn penderfyniadau'r llys, ond mae barn gyffredinol yn dderbyniol.

Bydd y Weinyddiaeth yn prosesu eich data personol yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data. Golyga hyn na fydd eich data personol yn cael ei ddadlennu i drydydd partïon.

## Galw am Dystiolaeth

Aseu'r risg o niwed i blant a rhieni mewn achosion plant cyfraith breifat

### Adran 1 - Eich profiad chi o achosion plant cyfraith breifat

*Mae'r cwestiwn hwn ar gyfer rhieni sydd wedi bod i'r llys teulu oherwydd anghydfod ynghylch trefniadau ar gyfer eu plant ar ôl iddynt wahanu (a elwir yn 'achosion plant cyfraith breifat').*

1. Dywedwch wrthym yn eich geiriau eich hun sut y bu i'r llys teulu ymateb i honiadau o gamdriniaeth ddomestig neu droseddau difrifol eraill yn eich achos, a/neu'r effeithiau arnoch chi a/neu'ch plant.

[Bydd y blwch testun yn ehangu]

2. A oedd eich profiad yn y llys teulu:

- Rhwng 2018 a 2019
- Rhwng 2014 a 2017
- Cyn 2014

[Dewiswch bob un sy'n berthnasol]

## Adran 2 - Codi honiadau o gamdriniaeth ddomestig neu droseddau difrifol eraill mewn achosion plant cyfraith breifat

3. A oes yna unrhyw anawsterau wrth godi honiad o gamdriniaeth ddomestig neu droseddau difrifol eraill yn erbyn rhiant neu blentyn mewn achos plant cyfraith breifat? Beth sy'n helpu dioddefwyr camdriniaeth neu droseddau eraill i godi'r mater neu a fyddai'n gallu eu hatal rhag gwneud hynny?

## Adran 3 - Lleisiau Plant

4. Sut mae lleisiau plant yn cael eu hystyried mewn achosion plant cyfraith breifat lle mae honiadau o gamdriniaeth ddomestig neu droseddau difrifol eraill? A yw plant yn teimlo fel bod eu lleisiau yn cael eu clywed yn yr achosion hyn? Beth sy'n helpu neu'n rhwystro plant rhag cael eu clywed?

## Adran 4 - Y broses pan fydd honiadau o gamdriniaeth ddomestig yn cael eu codi

*Pan fydd honiadau o gamdriniaeth ddomestig yn cael eu codi gan riant mewn achosion sy'n ymwneud â threfniadau plant, mae'r ffordd y dylai'r llys ymateb i'r honiadau wedi'i gynnwys yn y rhan o'r Rheolau Trefniadaeth Teulu o'r enw Cyfarwyddyd Ymarfer 12J. Mae'r Cyfarwyddyd Ymarfer hwn yn dweud y dylai'r barnwr benderfynu yn gyntaf a fyddai'r honiadau yn gwneud gwahaniaeth i unrhyw orchmynion y byddai'r barnwr eu gwneud am y plant. Os felly, ac os nad yw'r rhiant arall yn cytuno â'r honiadau, dylai'r llys gynnal 'gwrandawriad i ganfod y ffeithiau' i benderfynu p'un a yw'r honiadau yn wir. Os canfyddir bod camdriniaeth ddomestig wedi digwydd, dylai'r llys gael gwybodaeth am y risg o niwed yn y dyfodol, a dim ond gwneud gorchmynion a fydd yn cadw'r plentyn a'r rhiant y mae'n byw â hi/ag ef yn ddiogel.*

## Galw am Dystiolaeth

Asesu'r risg o niwed i blant a rheni mewn achosion plant cyfraith breifat

### 5. Gwrandawiadau i ganfod y ffeithiau

5. A gynhelir gwrandawiadau i ganfod y ffeithiau pryd y dylid? Os nad ydynt yn cael eu cynnal, beth yw'r rhesymau a roddir?

### 6. Asesu risg

6. Lle canfyddir bod camdriniaeth ddomestig wedi digwydd, sut asesir y risg ar gyfer y dyfodol a chan bwy? A yw'r asesiad risg yn berthnasol i blant yn unig, neu a yw hefyd yn berthnasol i'r rhiant sydd heb gam-drin?

### 7. Effaith Cyfarwyddyd Ymarfer 12J

7. Pa mor effeithiol yw Cyfarwyddyd Ymarfer 12J o ran amddiffyn plant a dioddefwyr camdriniaeth ddomestig rhag niwed?

*Mae'r tri chwestiwn nesaf wedi'u cynllunio ar gyfer pobl sy'n ymateb i'r holiadur sydd â gwybodaeth a phrofiad o nifer o achosion yn y llysoedd teulu.*

### 8. Heriau ac amrywiadau wrth weithredu Cyfarwyddyd Ymarfer 12J

8. Beth yw'r heriau i'r llysoedd wrth weithredu Cyfarwyddyd Ymarfer 12J? A yw'n cael ei weithredu'n gyson? Os na, sut a pham mae barnwyr yn amrywio o ran gweithredu'r Cyfarwyddyd Ymarfer?

## Galw am Dystiolaeth

Asesu'r risg o niwed i blant a rhieni mewn achosion plant cyfraith breifat

### 9. Rhagdybiaeth o gyfranogiad rhieni

*Mae Adran 1(2A) Deddf Plant 1989 yn nodi y dylai'r llys teulu ragdybio y byddai cyfranogiad rhiant ym mywyd plentyn er lles y plentyn, oni bai y byddai hynny'n rhoi'r plentyn mewn risg o ddioddef niwed. Cafodd hyn ei ychwanegu at Ddeddf Plant 2014.*

9. Beth fu effaith y rhagdybiaeth o gyfranogiad rhieni mewn achosion lle honnir camdriniaeth ddomestig? Sut mae'r rhagdybiaeth yn cael ei chymhwyso neu ei datgymhwyso yn yr achosion hyn?

### 10. Gorchmynion

10. Lle canfyddir bod camdriniaeth ddomestig wedi digwydd, i ba raddau y mae'r gorchmynion trefniadau plant a wneir gan y llys yn wahanol i'r gorchmynion a wneir mewn achosion nad ydynt yn cynnwys camdriniaeth ddomestig?

## Adran 5 - Diogelwch ac amddiffyniad yn y llys i ddioddefwyr camdriniaeth ddomestig a throeddau difrifol eraill

*Mae Rhan 3A Cyfarwyddyd Ymarfer 3AA yn y Rheolau Trefniadaeth Teulu yn nodi manylion y weithdrefn y dylai'r llys teulu ddilyn mewn perthynas â 'phartïon a thystion bregus'.*

### 11. Ceisiadau am fesurau diogelwch

11. Beth yw profiad dioddefwyr camdriniaeth ddomestig neu droeddau difrifol eraill o ran gwneud cais am drefniadau i amddiffyn eu diogelwch yn y llys?

*Rhowch wybod i ni am brofiadau lle darparwyd mesurau diogelwch a lle na ddarparwyd mesurau diogelwch, a phryd y bu i hyn ddigwydd.*

## Galw am Dystiolaeth

Asesu'r risg o niwed i blant a rhieni mewn achosion plant cyfraith breifat

### 12. Tystion bregus

12. A yw'r llysoedd teulu yn gwneud y penderfyniadau cywir o ran a yw dioddefwr honedig camdriniaeth ddomestig neu droseddau difrifol eraill yn fregus? Beth sy'n helpu neu'n rhwystro'r llys rhag gwneud y penderfyniadau hyn?

### 13. Croesholi uniongyrchol

*Pan fydd pobl yn mynd i'r llys heb gyfreithiwr, efallai y bydd angen iddynt ofyn cwestiynau'n uniongyrchol i'r parti arall, neu gael eu holi gan y parti arall. Mae hyn yn gallu cael effaith ddifrifol pan fydd un o'r partion wedi ymddwyn yn sarhaus tuag at y parti arall neu wedi cyflawni trosedd difrifol arall yn eu herbyn.*

13. Beth yw profiadau dioddefwyr camdriniaeth ddomestig a throeddau difrifol eraill o gael eu croesholi'n uniongyrchol gan y sawl yr honnir iddynt eu cam-drin/gyflawni'r drosedd? Beth yw eu profiad o orfod gofyn cwestiynau i'r sawl yr honnir iddynt eu cam-drin?

*Dywedwch wrthym am brofiadau lle caniatawyd croesholi uniongyrchol neu brofiadau lle'r oedd hyn yn ofynnol ac y bu iddo ddigwydd, yn ogystal â phrofiadau lle cafodd croesholi uniongyrchol ei osgoi mewn rhyw ffordd - nodwch sut a phryd y bu i hyn ddigwydd.*

*Mae'r ddau gwestiwn nesaf wedi'u cynllunio ar gyfer pobl sy'n ymateb i'r holiadur sydd â gwybodaeth a phrofiad o nifer o achosion yn y llysoedd teulu.*

### 14. Gweithredu Rheolau Trefniadaeth Teulu Rhan 3A a Chyfarwyddyd Ymarfer 3AA

14. Beth yw'r heriau i'r llysoedd wrth weithredu Rheolau Trefniadaeth Teulu Rhan 3A a Chyfarwyddyd Ymarfer 3AA? A ydynt yn cael eu gweithredu'n gyson? Os nad ydynt, sut a pham y maent yn anghyson?

## Galw am Dystiolaeth

Aseu'r risg o niwed i blant a rhieni mewn achosion plant cyfraith breifat

### 15. Effaith Rheolau Trefniadaeth Teulu Rhan 3A a Chyfarwyddyd Ymarfer 3AA

15. Pa mor effeithiol yw'r darpariaethau hyn o ran amddiffyn dioddefwyr camdriniaeth ddomestig a throseddau difrifol eraill rhag niwed mewn achosion plant cyfraith breifat?

## Adran 6 - Ceisiadau ailadroddus i'r llys teulu sy'n ymwneud â chamdriniaeth ddomestig

*Gall ceisiadau ailadroddus gan riant i'r llys teulu wneud gorchmynion mewn perthynas â'u plant, neu i amrywio neu orfodi gorchmynion sydd wedi'u gwneud, aflonyddu ar y rhiant arall hefyd ar yr un pryd â chael effeithiau andwyol ar y plant. Mae Adran 91(14) Deddf Plant 1989 yn rhoi'r pŵer i'r llys atal rhiant rhag gwneud rhagor o geisiadau heb yn gyntaf gael caniatâd y llys. Os yw'r rhiant yn gofyn am ganiatâd y llys i wneud cais arall, fe'i elwir yn 'caniatâd i wneud cais'.*

### 16. Ceisiadau ailadroddus fel math o gamdriniaeth

16. Pa dystiolaeth sydd yna o geisiadau ailadroddus mewn perthynas â phlant yn cael eu defnyddio fel ffordd o gam-drin, aflonyddu ar, neu reoli'r rhiant arall?

### 17. Gwneud gorchmynion a.91(14)

17. Ym mha amgylchiadau y mae'r llysoedd teulu yn gwneud gorchmynion dan a.91(14)?

## Galw am Dystiolaeth

Aseu'r risg o niwed i blant a rhieni mewn achosion plant cyfraith breifat

### 18. Ceisiadau am ganiatâd i wneud cais

18. Sut mae'r llysoedd yn delio â cheisiadau am ganiatâd i wneud cais yn dilyn gorchymyn a.91(14)?

*A yw'r parti arall wastad yn cael cyfle i ymateb i'r cais? A yw ceisiadau yn cael eu gwranddo gan yr un barnwr a wnaeth y gorchymyn gwreiddiol? Ym mha amgylchiadau y mae'r llysoedd yn fodlon rhoi caniatâd i wneud cais?*

*Mae'r ddau gwestiwn nesaf wedi'u cynllunio ar gyfer pobl sy'n ymateb i'r holiadur sydd â gwybodaeth a phrofiad o nifer o achosion yn y llysoedd teulu.*

### 19. Gweithredu a.91(14)

19. Beth yw'r heriau i'r llysoedd o ran cymhwyso a.91(14), gan gynnwys ceisiadau am ganiatâd i wneud cais? A oes yna gysondeb yn y broses gwneud penderfyniadau? Os nad oes, sut a pham y mae anghysondebau'n digwydd?

### 20. Effaith a.91(14)

20. Pa mor effeithiol yw gorchmynion a.91(14) o ran amddiffyn plant a rhieni sydd heb gam-drin rhag dioddef niwed?



## Adran 7 - Canlyniadau i blant

### 21. Effaith gorchmynion llys ar blant a rhieni

21. Pa dystiolaeth sydd yna o blant a rhieni yn ddiodeff niwed o ganlyniad i orchmynion a wnaed mewn achosion plant cyfraith breifat, lle mae camdriniaeth ddomestig neu droseddau difrifol eraill wedi'u cyflawni yn erbyn rhiant neu blentyn? (Gall hyn gynnwys niwed i riant a achoswyd gan orchmynion trefniadau plant yn datgan bod rhaid iddynt gyfathrebu â'r rhiant arall er mwyn hwyluso cyswllt).

*Rhowch fanylion am y math(au) o niwed sydd wedi digwydd, pryd ddigwyddodd y niwed, y math(au) o orchmynion a wnaed a p'un y cawsant eu gwneud drwy gytundeb rhwng y partïon neu eu cyfreithwyr, neu yn sgil penderfyniad gan y llys.*

*Beth yw effeithiau gorchmynion trefniadau plant pan fydd rhaid i riant diodeffwr ryngweithio/gyfathrebu â rhiant sydd wedi cam-drin er mwyn hwyluso cyswllt y mae'r llys wedi ei orchymyn?*

### 22. Effaith camdriniaeth ddomestig

22. Pa dystiolaeth sydd yna ynghylch y risg o niwed i blant o ran parhau i gael perthynas - neu i beidio â chael perthynas – gyda rhiant sydd wedi cyflawni camdriniaeth ddomestig (gan gynnwys rhiant sydd wedi rheoli'r teulu mewn modd gorfodol)?

### 23. Troseddau difrifol eraill

23. Pa dystiolaeth sydd yna ynghylch y risg o niwed i blant o ran parhau i gael perthynas – neu i beidio â chael perthynas – gyda rhiant sydd wedi cyflawni troseddau difrifol eraill yn erbyn y rhiant arall neu blentyn, megis cam-drin plentyn, treisio, ymosodiad rhywiol neu lofruddiaeth?

## Galw am Dystiolaeth

Aseu'r risg o niwed i blant a rheni mewn achosion plant cyfraith breifat

### Adran 8 - Unrhyw sylwadau eraill

24. A oes yna esiamplau o arferion da yn y llysoedd teulu neu y gallai'r llysoedd teulu eu mabwysiadu (efallai gan feysydd cyfraith eraill)?

25. Ydych chi'n dymuno gwneud unrhyw sylwadau eraill ar y materion sy'n cael eu hystyried gan y panel?

**Diolch y fawr ichi am gyfrannu at yr ymarfer galw am dystiolaeth hwn.**

# Amdanoch chi

Defnyddiwch yr adran hon i roi gwybodaeth i ni amdanoch chi'ch hun. **Mae'r adran hon yn ddewisol.**

Er gallai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder gael ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth ynghylch y wybodaeth a ddarperir yn yr ymarfer Galw am Dystiolaeth hwn, ni fydd gwybodaeth bersonol yn cael ei chyhoeddi a bydd pob ymateb yn ddienw.

<b>Enw llawn</b>	
<b>Teitl eich swydd</b> neu ym mha gapasiti yr ydych yn ymateb i'r ymarfer galw am dystiolaeth hwn (e.e. fel aelod o'r cyhoedd, ayb)	
<b>Dyddiad</b>	
<b>Enw'r cwmni / sefydliad</b> (Ile bo hynny'n berthnasol)	
Mae'n bosib y byddwn yn enwi neu'n dyfynnu sefydliadau sydd wedi cyfrannu at yr ymarfer galw am dystiolaeth hwn, felly ticiwch y blwch hwn os ydych yn rhoi caniatâd i ni wneud hynny.	<input type="checkbox"/> ticiwch y blwch os ydych yn rhoi caniatâd i'ch sefydliad gael ei enwi neu ei ddyfynnu)
<b>E-bost</b> (dewisol)	
Os hoffech inni gydnabod bod eich ymateb wedi ein cyrraedd, ticiwch y blwch hwn	<input type="checkbox"/> (ticiwch y blwch)

**Os ydych yn cynrychioli grŵp**, dywedwch wrthym beth yw enw'r grŵp a rhowch grynodedeb o'r bobl neu sefydliadau yr ydych yn eu cynrychioli.

---



---



---



---

# Manylion cyswllt/Sut i ymateb

Anfonwch eich ymateb erbyn 26/08/19 at:

**Lauren Wray**  
Ministry of Justice  
5 Wellington Place  
Leeds  
LS1 4AP

Ffôn: 07784 274880

E-bost: [Lauren.wray1@justice.gov.uk](mailto:Lauren.wray1@justice.gov.uk)

## Cwynion neu sylwadau

Os oes gennych unrhyw gwynion neu sylwadau ynghylch y broses galw am dystiolaeth yna dylech gysylltu â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder gan ddefnyddio'r cyfeiriad uchod.

## Copïau ychwanegol

Gallwch gael copïau papur ychwanegol o'r ymarfer galw am dystiolaeth hwn o'r cyfeiriad hwn ac mae hefyd ar gael ar-lein yn <https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/assessing-harm-private-family-law-proceedings>

## Grwpiau cynrychiadol

Gofynnir i grwpiau cynrychiadol roi crynodeb o'r unigolion a'r sefydliadau maent yn eu cynrychioli pan fyddant yn ymateb.

## Cyfrinachedd

Rhaid i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder gydymffurfio â Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Deddf Diogelu Data 1998, y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2018. Golyga hyn y gellir cyhoeddi neu ddadlennu gwybodaeth a ddarperir mewn ymateb i'r ymarfer Galw am Dystiolaeth hwn yn unol â'r cyfreithiau a'r rheoliadau hyn.

Mae'n bosib y bydd y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn cael ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth am y wybodaeth a ddarperir yn yr ymarfer Galw am Dystiolaeth hwn. Dylai ymatebwyr fod yn ymwybodol y gellir rhyddhau'r wybodaeth y maent wedi'i darparu o dan y Ddeddf hon. **Bydd unrhyw ymatebion unigol yn ddiennw. Ni fydd enwau unigolion neu sefydliadau yn cael eu nodi (oni bai bod sefydliadau'n rhoi caniatâd i wneud hynny ar dudalen 16).**

Mae'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn cynnwys Cod Ymarfer statudol y mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio ag ef ac sy'n delio, ymysg pethau eraill, ag ymrwymadau cyfrinachedd. Os ydych eisiau i'ch ymatebion gael eu trin yn gyfrinachol, eglurwch pam eich bod yn ystyried bod y wybodaeth a ddarparwyd gennych yn gyfrinachol. Os byddwn yn cael cais i ddadlennu'r wybodaeth byddwn yn ystyried eich eglurhad yn llawn, ond ni allwn roi sicrwydd y gellir cadw cyfrinachedd o dan bob amgylchiad. Ni ystyrir y bydd ymwrthodiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchir gan eich system TG, ynddo'i hun, yn ymrwmo'r Weinyddiaeth.

Bydd y Weinyddiaeth yn prosesu eich data personol yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data. Golyga hyn na fydd eich data personol yn cael ei ddadlennu i drydydd partïon.



© **Hawlfraint y Goron 2019**

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu dan delerau fersiwn 3.0 Trwydded Agored y Llywodraeth oni nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i [nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3](http://nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3)

Os ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd arnoch angen caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.